

cyfrifiad
census
2021

Trosolwg o Allbynnau Cyfrifiad 2021

Helena Rosiecka

Allbynnau Cyfrifiad 2021 a'u Lledaenu

05 Mai 2021

Dull newydd hyblyg, amserol a hygyrch o ymdrin ag allbynnau Cyfrifiad 2021



Hyblyg:

Ystod ehangach o allbynnau i ddiwallu anghenion amrywiaeth ehangach o ddefnyddwyr. Mwy o reolaeth i ddefnyddwyr greu eu hallbynnau eu hunain.



Amserol:


Rydym yn anelu at ddarparu allbynnau yn gynt nag ar gyfer Cyfrifiad 2011.



Hygyrch:

Ar gael mewn ffyrdd sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, gyda gwybodaeth ategol er mwyn sicrhau eu bod yn deall y data.


Cymharu datganiadau allbynnau'r cyfrifiad: 2011 a 2021



Amser ar ôl Diwrnod y
Cyfrifiad (blynyddoedd)

	Datganiadau 2011	Cynlluniau 2021
+1	<i>Data'r cyfrifiad yn dal i gael eu prosesu</i>	Allbynnau Cyntaf, Mawrth 2022
+1.5	Allbynnau Cyntaf, Gorffennaf 2012	...
+2	Yr holl Ystadegau Cyflym, Mawrth 2013	Allbynnau Olaf, Mawrth 2013
+2.5	Yr holl Ystadegau Allweddol, Gorffennaf 2013	Prif faes i'w wella o gymharu â 2011
+3	Y rhan fwyaf o'r allbynnau safonol, Mai 2014	
+3.5	Yr holl Gynhyrchion Microdata, Tachwedd 2014	
+4	Allbynnau Olaf, Mawrth 2015	

Trosolwg o'r Cynhyrchion



Tablau Parod

- Yn draddodiadol, mae'r rhain yn cynnwys newidynnau unigol a chroes-ddosbarthiadau o newidynnau lluosog.
- Y bwriad yw sicrhau bod y tablau hyn ar gael ar gyfer pob ardal ddaearyddol ar lefel benodol, sy'n bodloni ein gofynion rheoli datgelu (h.y. darpariaeth gyffredinol).
- Ar hyn o bryd, rydym yn cynnig set yn seiliedig ar y Tablau Nodweddion Lleol, Ystadegau Allweddol ac Ystadegau Cyflym, yn debyg i'r hyn a gynhyrchwyd yn 2011.
- Byddwn yn ymgynghori arnynt er mwyn cytuno ar fanylion y tablau.

Tablau Rydych yn Eu Creu Eich Hun

- Defnyddwyr i ofyn am eu cyfuniadau eu hunain o newidynnau i gynhyrchu setiau data sy'n diwallu eu hanghenion penodol.
- Mae'r adnodd yn creu tablau'n gyflym iawn ac yn defnyddio dulliau rheoli datgelu a gwirio yn awtomatig.
- Mae'r gwirio hwnnw yn pennu ar gyfer pa ardaloedd y gellir darparu'r tabl y gofynnwyd amdano – a gellir cynhyrchu tablau ar gyfer 'clytwaith' o ardaloedd.

Prototeip ar gyfer Creu Eich Tabl Eich Hun

Find and explore Census data


Explore our Census data by browsing ready-made tables or by creating your own custom table.

[Find ready-made tables](#)

Search and filter our selection of commonly requested tables.

[Create a custom table](#)

Use our flexible table builder to do your own multi-variate analysis.



Choose geographic area

🔍 *Search for Merged Local Authority*

[Population](#) > [England](#) > North East

Merged Local Authority | [Add all](#) | [Remove all](#)

- Hartlepool [Browse 1 sub-area](#) >
- Middlesbrough [Browse 1 sub-area](#) >
- Redcar and Cleveland [Browse 1 sub-area](#) >

Save and continue

Your table

Cell count: 1

Dataset: People with Households: England and Wales

Geographic area: Hartlepool

Geographic level: None selected

Variables: None selected

Choose your variables

- Age of individual ▼
- 2 categories i
- 4 categories i
- 6 categories i
- 8 categories i
- 14 categories i
- 18 categories i
- 21 categories i

Save and continue

Your table

Cell count: 4


Dataset: People with Households: England and Wales

Geographic area: Hartlepool

Geographic level: Local Authority

Variables: Age of individual (4 categories)

Data confidentiality



1 out of 1 areas pass confidentiality checks.

- Country of birth of household reference person i
- Distance travelled to work >
- Economic activity >
- English proficiency i
- Ethnic group v
 - 3 categories i
 - 6 categories i
 - 8 categories i
 - 19 categories i

Save and continue

Your table

Cell count: 320


Dataset: People with Households: England and Wales

Geographic area: Hartlepool

Geographic level: Local Authority

Variables: Age of individual (4 categories), Country of birth (10 categories), Ethnic group (8 categories)


Data confidentiality



1 out of 1 areas pass confidentiality checks.


Tablau y gellir eu haddasu

- Mae'r syniad hwn yn fwy cysyniadol ac nid yw wedi'i brofi na'i ddatblygu eto.
- Mae'r cysyniad yn galluogi defnyddwyr i 'addasu' tabl parod (er enghraifft, cynyddu pa mor fanwl yw newidyn yn y tabl hwnnw).
- Rydym yn arbennig o awyddus i gael adborth defnyddwyr ar y cysyniad hwn.



Rheoli Datgelu Ystadegol

- Bydd dull aml-haen o reoli datgelu ystadegol yn golygu y bydd modd darparu allbynnau hyblyg a chyfrinachol yn gynt, gan ddefnyddio dull seiliedig ar glytwaith o ardaloedd lle mae'r data yn cefnogi'r lefel honno o fanylder.



- Y 'gost' yw y bydd gwahaniaethau bach rhwng tablau (cyfansymiau anghyson).

‘Pwrpasol, cyfyngedig neu wedi’u comisiynu’

Safonol

Pwrpasol, cyfyngedig neu wedi’u comisiynu

Tarddiad-
Cyrchfan

Allbynnau
Poblogaeth
Fach, e.e.
Cernywaidd,
Sicaidd

Samplau
microdata

SRS ac UKDS

Allbynnau
wedi’u
comisiynu

● Cynnig gwell

Adeiladu ar gynhyrchion 2011 gyda mwy o ffocws ar gynhyrchion sy’n hygyrch i’r cyhoedd, yn ogystal â’r tablau data manylach.

Adeiladu ar [setiau o dablau a gynhyrchwyd o Gyfrifiad 2011](#) ac yn awyddus i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn deall anghenion a dylunio cynhyrchion addas.

Mae’r cynlluniau’n debyg i 2011 ond caiff ffeil microdata ar gyfer cartrefi wedi’i diogelu ei hychwanegu a bydd darpariaeth mewn fformat IPUMS.

Bydd y gwasanaeth presennol ar gyfer comisiynu allbynnau’r cyfrifiad nad ydynt eisoes ar gael i’r cyhoedd yn parhau.

Cynnwys Mwy Cyfoethog

- Gellir dadlau y bydd hyd yn oed mwy o gyfleoedd i ddarparu mwy o werth i ddefnyddwyr presennol a defnyddwyr newydd drwy gynhyrchion newydd ac arloesol.
- Ystyried newidiadau o ran cynhyrchion y gellid eu darparu a sut y gellir eu creu hefyd.

Cynnwys Mwy Cyfoethog (geiriau, lluniau, gwybodaeth)

Dadansoddiad




Proffiliau
Ardal

Dosbarthiadau
Ardal

Delweddau
Data

Prototeipiau Delweddu Data

Dyma rai enghreifftiau o brototeipiau y mae'r tîm yn eu datblygu er mwyn helpu defnyddwyr i gael gafael ar ddata Cyfrifiad 2021, eu delweddu a'u dehongli



[Ardaloedd wedi'u Pennu gan y Defnyddiwr](#)

[Straeon Sgrolio](#)

[Atlas Delweddu Data'r Cyfrifiad](#)

Heriau a Chyfleoedd (1)

Cyfradd debygol o newid mewn rhai nodweddion o fis Mawrth 2021

- Cymryd y ciplun o ansawdd, a'i ddarparu i ddefnyddwyr fel data i'w defnyddio ar gyfer cynllunio a llywio penderfyniadau yn 2022, 2023 a thu hwnt
- Y ffordd rydym yn darparu data i ddisgrifio newid dros amser, sy'n cyfeirio'n ôl at ddata Cyfrifiad 2021 ac yn eu defnyddio – gan ychwanegu data mwy perthnasol ac amserol lle bo angen
- Mae'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo (argymhelliad 2023 a'r defnydd o ddata gweinyddol) yn cynnig rhai cyfleoedd a phosibiliadau i ni na fyddent wedi bodoli o'r blaen
- Mewn rhai ardaloedd, mae'n debygol y bydd angen cyfuno ffynonellau data ychwanegol â data'r cyfrifiad er mwyn rhoi darlun cyflawn (e.e. Teithio i'r Gwaith)
- Byddwn yn rhannu syniadau ac yn ceisio barn defnyddwyr am hyn fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig ar Allbynnau'r Cyfrifiad

Heriau a Chyfleoedd (2)

Data'r Deyrnas Unedig – o ystyried bod Cyfrifiad yr Alban wedi cael ei symud i 2022

- Problem o ran pryd y bydd data'r Deyrnas Unedig ar gael, ond cwestiwn hefyd am yr hyn y mae'n briodol ei ddwyn ynghyd o 2 gyfnod cyfeirio gwahanol (yn enwedig o ystyried y gyfradd newid a ddisgwylir mewn rhai nodweddion)
- Effeithiau ar Ystadegau Poblogaeth ehangach y Deyrnas Unedig (yn enwedig mewn perthynas â thaclusrwydd diweddariadau yn seiliedig ar wybodaeth o'r cyfrifiad)
- Mae'n debygol y bydd rhai allbynnau'n bosibl ar gyfer y Deyrnas Unedig, yn debyg i'r rhai a gynhyrchwyd yn 2011 ond, yn achos rhai eraill (megis data Tarddiad-Cyrchfan), mae'n debygol y bydd angen ailystyried yr hyn y gellir ei gynhyrchu i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- Sefydlwyd Gweithgor Defnyddwyr Data'r Deyrnas Unedig i'n helpu i weithio drwy'r broses o benderfynu pa allbynnau y gellir eu cynhyrchu i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- Mae gwaith yn parhau ar draws 3 swyddfa'r cyfrifiad er mwyn bod mor gyson â phosibl

Ymgynghoriad Allbynnau

- Caiff ymgynghoriad Allbynnau Cyfrifiad 2021 ei gynnal yn y gwanwyn/haf
- Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio'n bennaf ar yr agweddau newydd a diwygiedig ar yr Allbynnau a fydd ar gael o'r cyfrifiad.
 - Ar ba ffurf y bydd ein hallbynnau a'r cynlluniau rhyddhau dadansoddiadau
 - Effaith y coronafeirws ar allbynnau penodol
 - Effaith symud Cyfrifiad yr Alban ar allbynnau data'r Deyrnas Unedig
 - Cynigion ar gyfer dosbarthiadau allbynnau newydd neu ddiwygiedig, poblogaethau bach a disgrifiadau tablau data

Dyddiadau Allweddol

Dyddiad	Gweithgarwch
21 Mawrth 2021	Diwrnod y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr
Gwanwyn/Haf 2021	Ymgynghoriad ffurfiol ar allbynnau Cyfrifiad 2021
Hydref/Gaeaf 2021	Cyhoeddi'r Prosbectws Allbynnau (gan gynnwys amserlen rhyddhau ddangosol)
Mawrth 2022*	Rhyddhau'r gyfres gyntaf o ystadegau'r cyfrifiad
Mawrth 2022* – Mawrth 2023*	Cyfnod rhyddhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr)
Mawrth 2023*	Cwblhau prif allbynnau Cyfrifiad 2021 (Cymru a Lloegr)
Diwedd 2023	Argymhelliad ar ddyfodol y cyfrifiad ac ystadegau poblogaeth
Diwedd 2023/ dechrau 2024	Rhyddhau allbynnau'r cyfrifiad ar gyfer y Deyrnas Unedig

* Dyddiadau targed

Dolenni defnyddiol

- [Tudalennau gwe allbynnau Cyfrifiad 2021](#)
- Cofrestrwch i gael diweddariadau ar ‘allbynnau Cyfrifiad 2021’ drwy [GovDelivery](#)
- Cymerwch ran mewn gwaith ymchwil yn ymwneud ag allbynnau defnyddwyr Cyfrifiad 2021 drwy e-bostio: census.outputs@ons.gov.uk

Diolch